

Secukinumab ar gyfer spondylitis ymasiol gweithredol ar ôl cael triniaeth â chyffuriau gwrthlidiol nad ydynt yn steroidau neu atalyddion TNF-alfa

Medi 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir secukinumab (Cosentyx). Mae'n driniaeth bosib ar gyfer oedolion sydd â spondylitis ymasiol gweithredol os nad yw triniaeth â chyffuriau gwrthlidiol nad ydynt yn steroidau (NSAIDS) nac atalyddion TNF-alfa wedi gweithio.

Dylid asesu'r driniaeth ar ôl 16 wythnos a dylai ond parhau os oes tystiolaeth glir ei fod yn gweithio.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych spondylitis ymasiol gweithredol a bod eich meddyg o'r farn mai secukinumab yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai'r driniaeth fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae spondylitis ymasiol yn fath o arthritis llidiol. Mae'n gyflwr hirdymor sy'n gwaethygu. Y prif symptom yw poen cefn.

Mae secukinumab yn rhwystro gweithrediad interleukin 17A, sylwedd yn y corff sy'n gyfrifol am ddatblygiad spondylitis ymasiol.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [National Ankylosing Spondylitis Society](#), 0208 741 1515
- [Arthritis and Musculoskeletal Alliance \(ARMA\)](#), 020 7842 0910 neu 020 7842 0911
- [Arthritis Action](#), 0800 652 3188
- [Back Care](#), 0208 977 5474
- [Pain UK](#)
- [Versus Arthritis](#), 0800 520 0520

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2137-9